# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 29 Ionawr 2015** |
| Amser: | **09.15 – 14.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2657**

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Graham AC (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw AC**<br>**Jeff Cuthbert AC**<br>**Keith Davies AC**<br>**Rhun ap Iorwerth AC**<br>**Eluned Parrott AC**<br>**Joyce Watson AC**<br>**Suzy Davies AC** |
| Tystion: | **Daisy Cole, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**<br>**Graeme Francis, Age Cymru**<br>**David Pugh, Prime Cymru**<br>**Hayley Ridge-Evans, Prime Cymru**<br>**Huw Thomas, Canolfan Byd Gwaith**<br>**Iwan Williams, Comisiynydd Pobl Hyn Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Christopher Warner (Clerc)**<br>**Claire Morris (Clerc)**<br>**Rachel Jones (Dirprwy Glerc)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Sesiwn Friffio ar yr Ymchwiliad (preifat)

1.1 Cyflwynwyd yr ymchwiliad newydd i Gyfleoedd Cyflogaeth i Bobl Dros 50 Oed i'r Aelodau.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

**2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Thomas, Dafydd Elis-Thomas a Byron Davies. Dirprwyodd Suzy Davies ar ran Byron Davies am ran o'r cyfarfod.**

## 3 Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

3.1 Cafwyd tystiolaeth gan Iwan Williams a Daisy Cole.

3.2 Cytunodd **Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn i anfon awgrymiadau ynghylch sut y gallai cynllun sy'n debyg i gynllun cyfredol Twf Swyddi Cymru ar gyfer pobl dros 50 oed gael ei strwythuro a'i gyllido.**

## 4 Canolfan Byd Gwaith

4.1 Cafwyd tystiolaeth gan Huw Thomas.

4.2 Cytunodd y Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- gwybodaeth bellach ac unrhyw ystadegau ar y cynllun gwarantu cyfweliad.
- Ystadegau ar nifer y bobl dros 50 oed sy'n ymuno/gadael y broses hawlio lwfans ceisio gwaith.
- unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran nifer y sancsiynau DWP/JCP i bobl dros 50 oed
- copi o'r pecyn adnoddau a ddefnyddir gan eu hyfforddwyr gwaith
- edrych i mewn i sefyllfa perchennog busnes bach o ran y system fudd-daliadau os yw'r perchennog hwnnw yn penderfynu cau'r busnes ei hun os yw'r busnes yn methu.

## 5 Cynghrair Henoed Cymru ac Age Cymru

5.1 Cafwyd tystiolaeth gan Graeme Francis, David Pugh a Hayley Ridge-Evans.

5.2 Cytunodd P**rime Cymru i anfon awgrymiadau ynghylch sut y gallai cynllun sy'n debyg i gynllun cyfredol Twf Swyddi Cymru ar gyfer pobl dros 50 oed gael ei strwythuro a'i gyllido.**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 7 Adroddiad Drafft ar Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith.

## 8 Papurau i'w nodi

8.1 Ymchwiliad Dilynol i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM): Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i’r llythyr gan y Cadeirydd ar 27 Tachwedd.

8.1.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.